



Croeso i Flwyddyn
1 a 2
*Welcome to Year
1 and 2*



Ysgol Gynradd Parcyrhun



Aelodau Staff


Staff members

Athro
Teacher

Miss S Rees

Cynorthwydd
Assistant

Mrs K Brodrick



Cofiwch fod ein drws o hyd ar agor!
Mae gennym bolisi 'drws agored' ym
Mharcyrhun. Rydym ar gael ar ddiwedd y
dydd i rannu negeseuon yn fyr am unrhyw
faterion arall allwch drefnu apwyntiad
gyda'r athro ynglyn ag amser sy'n gyfleus
i'r ddau barti.

**Peidiwch â cholli cwsg - dewch am
sgwrs!**

Remember our door is always open!

*We have an 'open door' policy here at Parcyrhun.
We are usually available at the end of the day to share
messages quickly alternatively you can make an
appointment with the teacher at the convenience of
both parties.*

A problem shared is a problem halved!



Ein Cwricwlwm

Our Curriculum

Addysg Gorfforol / Physical Education :

Bydd angen gwisgo dillad ymarfer corff addas, e.e. crys –t ysgol, siorts du, tracwisg du ac esgidiau addas ar eich plentyn ar ddiwrnod gwersi addysg gorfforol-
Dydd Mercher



Your child will need to wear suitable clothing for PE, e.g. school t-shirt, black shorts, black tracksuit and suitable shoes to school on the day of their lesson-**Wednesday**

Yn dymhorol bydd llythyr cwricwlwm yn dod adref er mwyn i chi wybod pa themau mae'r plant wedi dewis i ddysgu. Mae llais y plant yn rhan allweddol o'r cynllunio yn Ysgol Parcyrhun


Os oes gwybodaeth neu cymorth rydych yn gallu cynnig i'r disgyblion ar gyfer y thema bydd yr ysgol yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Tymor yma ein thema yw- Rwy'n Arbennig

Each term a curriculum letter will be sent home in order for you to be aware of the themes that the children have chosen. Pupil voice is an important part of our planning at Ysgol Parcyrhun.

If you can offer any expertise or support the school would appreciate this very much.

Our theme this I am Wonderful





Cyfleoedd dysgu

Learning opportunities

ardaloedd dysgu/
learning areas

cynnydd/
progress




hapus/
happy



sgiliau/
skills

annibyniaeth/
independence





Ymweliadau ac ymwelwyr

Visits and visitors





Cyswllt cartref ym mlwyddyn 1 a 2

Home school links in year 1 and 2



Bydd ffeiliau darllen yn dod adref ar nos Wener ac yn dychwelyd i'r ysgol ar fore dydd Llun. Cofiwch arwyddo'r llyfr cofnod a gwaghau unrhywbeth sydd ddim angen ynddo yn wythnosol.

The reading file will go home every Friday and return to school on a Monday morning. Please remember to sign the record book and remove any unnecessary items weekly.

Ar hyn o bryd rydym yn gofyn barn disgyblion a rhieni i wella ein trefniadau gwaith cartref presennol. Gofynnwn yn garedig a allai rhieni gwblhau'r arolwg a ddarperir. Bydd rhieni a disgyblion yn derbyn gwybodaeth yn fuan.

We are currently seeking pupil and parent voice to improve our current homework arrangements. We ask kindly if parents could complete the survey provided. Parents and pupils will receive information shortly.



Cyswllt cartref ym mlwyddyn 1 a 2

Home school links in year 1 and 2



Holiadur Gwaith Cartref 25-26 /
Homework Questionnaire 25-26





Cadw mewn cysylltiad ...

Keeping in contact...



Dilynnwch ni / Follow us -


[@ysgolparcyrhun](https://twitter.com/ysgolparcyrhun)

Am wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o'r ysgol
For the latest information and news from school



Gwefan yr ysgol /
School website :

<https://www.parcyrhun.ysgolccc.cymru/>





Presenoldeb a phrydlondeb

Attendance and Punctuality

Clwb brecwast-Drysau ar agor rhwng 8.10-8.30
Oriau ysgol Meithrin i flwyddyn 2- 9.00-3.00

Mae presenoldeb rheolaidd yn allweddol os yw plentyn am fanteisio i'r eithaf ar eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn pwysleisio bod presenoldeb rheolaidd yn hollbwysig er mwyn sicrhau datblygiad addysgol a chymdeithasol y plentyn. **Dim ond un cyfle y mae plant yn ei gael yn yr ysgol, a gallai peidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd effeithio ar siawns eich plentyn o ddyfodol llwyddiannus.**

Regular attendance and punctuality are important if children are to take part fully in the life of the school and to take advantage of the learning opportunities offered by the school. We recognise that attending school regularly and punctually is vital to the educational process and encourages a good pattern of work. **Children only get one chance at school, and your child's chances of a successful future may be affected by not attending school regularly.**

Ddisgwylir i bob plentyn fod ar dir yr ysgol erbyn 9.10

Os yw disgyblion yn cyrraedd ar ol drysau Clwb brecwast gau am 8.30am, nid yr ysgol sydd yn gyfrifol amdanynt gan na fydd goruchwyliaeth are eu cyfer ar yr iard.

Prydlondeb - Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 9.00 yb unrhyw un sydd yn cyrraedd ar ol hyn fe fyddant yn derbyn marc hwyr. Bydd angen llofnodi eich plentyn i mewn i'r ysgol yn y prif dderbynfa.

Gofynnir i rieni gasglu ei plentyn yn brydlon ar ddiwedd y dydd. Ni fydd plant yn cael gadael yn gynnar oni bai bod apwyntiad doctor ayyb ganddynt. Bydd angen llofnodi eich plenty allan o'r ysgol yn y prif dderbynfa.

Plentyn yn Sâl - Disgwylir i rieni roi eglurhad cyn 9.20yb ar y diwrnod cyntaf y bydd y plentyn yn absennol. Oni fyddwn yn derbyn galwad ffôn neu weld y rhiant yna fe nodir fod eich plentyn yn absennol heb ganiatâd.

Gwyliau - Gofynnwn yn garedig i chi beidio mynd ar wyliau yn ystod amser ysgol er mwyn rhoi pob cyfle posib i'ch plenty. Bydd angen llewni ffurflen gwyliau sydd ar gael o'r swyddfa. Fe fydd pob gwyliau yn ystod y tymor ysgol yn cael eu nodi fel absenoldeb anawdurdodedig.

Breakfast club-Doors are open between 8.10-8.30
School hours for Nursery to Year 2-9.00-3.00

All pupils are expected to be on the school premises by 9.00.

The school is not responsible for pupils that arrive at school before 8.30am and are not members of the breakfast club as there is no adult supervision on the front yard.

Punctuality - The school day begins at 9.00am—any child arriving after this will receive a late mark. You will need to come to the main Reception and sign your child in.

All parents are expected to collect their child on time at the end of the school day. No children will be allowed to leave early except in cases where the child has a doctor's appointment for example. You will need to come to the main Reception to sign your child out.

Absence due to illness - It is imperative that parents provide an explanation on the first day your child is absent. You are requested to notify the school before 9.20am. Unless we receive a telephone call or a visit from the parent, then your child's absence will be registered as unauthorised.

Holidays - We kindly ask you not to go on holiday during term time in order to give your child every advantage possible. You will need to fill a holiday form which can be obtained from the office. All termtime holidays will be recorded as an unauthorised absence.



HWB

Beth yw Hwb?

Bydd gan bob disgybl manylion mewngofnodi personol ar ôl i'r disgybl a riant lofnodi polisi defnydd derbynol .

Bydd disgyblion yr ysgol yn cael eu hannog i fewngofnodi i'w cyfrif HWB o fewn y dosbarthiadau a thu allan i'r ysgol.

Mae gan bob disgybl mynediad i'r platform dysgu digidol – HWB. Mae'n aglluogi dysgwyr i ddod o hyd i adnoddau a theclynnau digidol mewn unrhyw leoliad, ar unrhyw adeg ac o unrhyw ddyfais. Mae'r platform yn sicrhau mynediad i bob ddisgybl i Office 365 sydd yn cynnwys Word, Powerpoint, Excel a OneNote. Yn ogystal, mae lle canolig gan bob ddisgybl i storio eu gwaith.

Am fwy o wybodaeth:

<http://hwb.wales.gov.uk/pages/Support>
[@HwbNewyddion](#)



What is HWB?

All children are provided with personal Hwb log in details once an acceptable use policy has been signed by both the pupil and the parents.

All of the children are encouraged to log into their Hwb+ accounts using the equipment available in the classroom.

All pupils and staff have access to Welsh Government's Hwb portal. In addition to a wealth of learning resources, HWB users also have full Microsoft Office 365 functionality which includes online versions of Word, PowerPoint, Excel and OneNote. Users also have a OneDrive folder to store all their documents and files. For more information :

<http://hwb.wales.gov.uk/pages/Support>
[@HwbNews](#)

Hwb



Gwisg Ysgol

School uniform

Anogwn ein disgyblion i wisgo gwisg swyddogol yr ysgol. Yn ogystal, mae esgidiau a gwisg addas yn angenrheidiol ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Disgwylir i ddisgyblion gwisgo'n barod i'r wers i ddod i'r ysgol. Nid yw jîns neu ddillad a chanddynt sloganau neu logos masnachol arnynt yn dderbyniol fel gwisg ysgol. Fe fydd sawl cyfle yn ystod y flwyddyn i wisgo'n hamddenol ar ddiwrnodau pwrpasol (e.e. "Plant mewn Angen").

Gallwch archebu o Eirllin.

Erfyniwn arnoch i osod enw eich plentyn yn glir ar ei dd/dillad. Oni wneir hyn mae'n anoddach i ddod o hyd i ddillad coll.



Pupils are encouraged to wear the school's official uniform. Also, appropriate clothes and footwear are essential for Physical Education lessons. Pupils are required to dress in these clothes on the day of their lesson. Denim jeans and clothes bearing commercial slogans and logos are not acceptable as school uniform. There are however several opportunities during the year to "dress down" on designated days (For example, "Children in Need").

You can purchase school uniform from Eirllin

We urge you to write your child's name clearly on his/her clothes. Unless this is done identifying the owners of any lost property is very difficult.



Taliadau arian

Money payments

Mae plant blynyddoedd meithrin i flwyddyn 6 nawr yn derbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim, search hynnu bydd angen sicrhau eich bod yn archebu cinio eich plentyn drwy ParentPay. Mae angen y wybodaeth yma er mwyn i'r gegin sicrhau niferoedd cywir o brydiau bwyd.

Er bod cinio ysgol am ddim nawr mae'n bosib eich bod dal yn deilwng o gymorth.

Children from Nursery to Year 6 now receive school dinners for free.

However, it is important that you order your child's dinner on ParentPay for the kitchen to prepare the correct number of meals.

Even though School dinners are free you may be entitled to further assistance.

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/education-schools/school-meals/free-school-meals/>



O hyn ymlaen fe fyddwn yn defnyddio system ParentPay i dalu am ymweliadau, a thripiâu ysgol.

Mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol os ydych angen cymorth.

From now onwards we will be using ParentPay

To pay for school visits and excursions.

If you need any assistance with this, please contact the school.



Meddygyniaeth

Medication

Does dim disgwyl i unrhyw aelod o'r staff drefnu neu roddi unrhyw feddygyniaeth i blant yn yr ysgol. Serch hynny, gall achosion godi lle mae'n fuddiol i iechyd plentyn i beidio â cholli ysgol i dderbyn moddion, a roddwyd gan feddyg, yn yr ysgol.

Mewn achosion fel hyn disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol er mwyn llenwi ffurflen ganiatâd i roi meddygyniaeth i blant. Lle bo'n bosibl fe ddylai rhieni ofyn i'w meddyg teuluol i ddarparu meddygyniaeth i'w plentyn lle nad oes angen cymryd dôs yn ystod y diwrnod ysgol. **Ni all** staff yr ysgol roddi moddion sydd heb ei ddarparu gan feddyg.



It is not expected of any member of staff to arrange or to administer any medicines for children in school. However, circumstances may arise where children are well enough to attend school having been prescribed medicine by their GP.

In cases such as this, parents must contact the school and complete a consent form enabling members of staff to administer prescribed medicines. Where possible, parents should ask their GP to prescribe medicine for their child that does not require the administration of any dosage during the school day. School staff **cannot** administer medicines that have not been prescribed by a doctor.



Dyddiadau Allweddol

Important Dates

Dyddiadau tymhorau a gwyliau / School term and holiday dates 2025-2026

<u>2025/ 2026</u>	Tymor yn dechrau / Term begins :	Tymor yn gorffen / Term Ends :	<u>Gwyliau Hanner Tymor / Half Term Holidays</u>		Tymor yn dechrau / Term begins :	Tymor yn gorffen / Term Ends :
Tymor Yr Hydref / Autumn Term 2025	Maw/Tue 02/09/25	Gwe /Fri 24/10/2025	Llun/Mon 27/10/2025	Gwe/Fri 31/10/2025	Llun/Mon 03/11/2025	Gwe/Fri 19/12/2025
Tymor Y Gwanwyn / Spring Term 2026	Llun/Mon 05/01/2026	Gwe/Fri 13/02/2026	Llun/Gwe 16/02/2026	Gwe/Fri 20/02/2026	Llun/Mon 23/02/2026	Gwe/Fri 27/03/2026
Tymor Yr Haf / Summer Term 2026	Llun/Mon 13/04/2026	Gwe/Fri 22/05/2026	Llun/Mon 25/05/2026	Gwe/Fri 29/05/2026	Llun/Mon 01/06/2026	Llun/Mon 20/07/2026

HMS/INSET
01/09/25

Gŵyl Fai/May day
04/05/26



Diolch yn fawr
Thank you very much

